Eisteddfod gylch Aberystwyth

Cafwyd diwrnod prysur o gystadlu yn y Neuadd Fawr a llongyfarchiadau gwresog i'r canlynol - Tirion Lewis - 3ydd unawd 8-10; Charlotte Griffiths a Trystan Davies - cydradd 3ydd llefaru 8-10; Charlotte, Mark a Trystan - 2il, ymgom wreiddiol. Daeth côr yr ysgol yn drydydd , y parti dawnsio gwerin dan 10 yn gydradd 3ydd a'r partion dawnsio gwerin dan 12 yn gyntaf ac yn ail. Diolch o galon i Mrs Nia Lewis a Mr Dafydd Thomas am eu cymorth parod.

Eisteddfod Ddawns

Ar ôl eu llwyddiant yn y cylch bu'n rhaid i'r parti dawns dan 12 gystadlu yn Eisteddfod Ddawns y Sir er mwyn sicrhau lle yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Llongyf-archiadau mawr iddynt am wneud eu gwaith mor gydwybdool a phob dymuniad da iddynt ym Mhwllheli. Llawer o ddiolch i Mrs Bethan Bryn am gyfeilio i'r plant ar y dydd.

RSPCA

Ymwelodd cynrychiolydd o'r RSPCA â'r ysgol i siarad gyda plant Cyfnod Allweddol 1 am gartrefi anifeiliaid a sut i ofalu am anifeliaid anwes. Neges ynglŷn â sbwriel a llygredd oedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ac ar ddiwedd yr ymweliad roedd pawb wedi dysgu ffeithiau newydd a diddorol.